e-ddysgu yn y sector gwirfoddol yn Sir Benfro

Hydref 2004 - Awst 2005

Diffinnir E-ddysgu fel "y defnydd o dechnoleg electronig i gefnogi, hyrwyddo neu gyflenwi dysgu." Diffiniad: Llywodraeth Cynulliad Cymru

Mae hyn yn cynnwys y defnydd o fideos, CD-ROMs, rhaglenni teledu, cyfrifiaduron ar-lein neu oddi ar-lein a hyd yn oed ffons mudol fel rhan o gwrs ffurfiol neu ond mater o ddysgu anffurfiol. Yn hytrach nag eistedd yn yr ystafell ddosbarth gallech ddysgu gartref, yn y gwaith neu mewn llyfrgell, pryd bynnag y mae gennych amser, a bwrw ymlaen yn eich stêm eich hun gan wneud dysgu yn fwy diddorol, yn fwy hyblyg ac yn gweddu'n bwrpasol at anghenion unigol.

Bwriad y cyhoeddiad hwn yw rhannu'r wybodaeth a'r astudiaeth achos a gasglwyd o amgylch Sir Benfro fel rhan o brosiect ymchwil e-ddysgu Cymru gyfan a ariannwyd gan ELWa (Dysgu ac Addysgu Cymru) a'i gydlynu gan GGGG (Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru). Medrwch weld yr adroddiad cyflawn ynghyd ag astudiaethau achos estynedig ar wefan PAVS ar www.pavs.org.uk/E-learning.htm

Bwriadau'r prosiect ymchwil e-ddysgu

- I archwilio e-ddysgu yn y sector gwirfoddol a chanfod beth sy'n digwydd ar hyn o bryd yn Sir Benfro
- I archwilio manteision e-ddysgu yn ogystal â'r anfanteision
- I godi ymwybyddiaeth ymhlith grwpiau gwirfoddol o'r hyn y gall e-ddysgu ei wneud iddyn nhw

Prif Ganfyddiadau

1. Mae nifer o **brosiectau arloesol** ar gael sydd wedi sicrhau arbenigedd, profiad ac offer diweddaraf, er enghraifft rhai o labordai digidol CREDU, prosiect cyfathrebu 123 PAVS a desg Adnodd TG Age Concern.
   Ond:
   Yn aml golyga **cyllido** dros dro a chyfyngedig mai ond am ychydig y pery prosiectau ac mewn rhai achosion dydyn nhw ddim yn medru dygymod â'r galw. Yn aml iawn does dim adnoddau gan grwpiau llai i brynu a diweddaru **offer TGC** ac mae yna hefyd brinder cyffredinol o **gefnogaeth dechnegol un pwrpas**, yn arbennig ar gyfer mudiadau llai.

2. Mae grwpiau a mudiadau wedi sefydlu **rhwydweithiau o bobl** o fewn eu cymunedau penodol, yn gymunedau daearyddol ac yn gymunedau ar sail diddordebau. Enghreifftiau o hyn yw Neuadd Gymunedol Sant Ioan, Age Concern, Ymddiriedolaeth y Tywysog yn ogystal â llawer o rai eraill a ddisgrifir yn yr astudiaethau achos. Mae'r rhwydweithiau hyn yn seiliau cryf ar gyfer prosiectau datblygu dysgu.
   Ond:
   Mae **rhwydweithiau cymunedol a lleoliadau sydd ag offer TGC wedi eu gwasgaru'n anghyfartal** ar draws y sir, gan ei gwneud yn anodd iawn i lawer o bobl, yn arbennig mewn ardaloedd gwledig, i gael gafael ar gyfleusterau TGC cymunedol.

3. Mae yna weithio partneriaeth da rhwng y gwahanol sectorau yn Sir Benfro, er enghraifft yr is-grŵp e-ddysgu CCET sydd wedi cynhyrchu'r Strategaeth e-Ddysgu ar gyfer Sir Benfro. Enghreifftiau eraill yw'r Porth Addysg Cyngor Sir Penfro a chwrs ar-lein Y Ddinas & Urddau 'Dysgu byw' a gefnogir gan PAVS.
   Ond:
   Mae yna ddealltwriaeth gyfyngedig o e-ddysgu ac mae llawer yn ei weld fel adnodd technoleg-ddibynol a diflas nad yw'n galluogi gweithio a chyfathrebu hyblyg.

Un canlyniad ymarferol:

Basdata lleoliad PAVS www.pavs.org.uk

Er mwyn mwyhau'r defnydd o leoliadau cymunedol a gwirfoddol datblygwyd basdata lleoliad a'i roi ar-lein trwy wefan PAVS. Mae'r basdata'n cynnwys manylion cyswllt, gwybodaeth am gyfleusterau'r lleoliadau e.e. mynediad i'r anabl a chyfleusterau TGC.

Cyswllt: Derbynfa, PAVS, 36/38 Stryd Fawr, Hwlffordd, Sir Benfro, SA61 2DA, Tel 01437 769422

Astudiaeth Achos

Lab digidol Credu, Canllaw ar-lein

Mae prosiect Credu yn fenter ar y cyd rhwng Canllaw ar-lein a Gwasanaethau Fujitsu i ddarparu rhwydwaith o 82 o labordai digidol ar draws Cymru. Mae labordy digidol yn cynnwys yr offer cyfrifiadurol diweddaraf (gorsafoedd gwaith cyfrifiadurol, gliniaduron, pentabion, argraffwyr), gweinyddwr, camerâu digidol, taflunydd data a bwrdd gwyn rhyngweithiol, offer anghenion arbennig ac ystod o feddalwedd safonol ac arbenigol megis meddalwedd golygu fideo a cherddoriaeth. Lleolir labordai digidol mewn canolfannau sydd yn ymwneud â gwaith ieuenctid. Y gr p targed yw pobl ieuanc rhwng 16 a 25. Y gobaith yw y byddan nhw'n defnyddio'r dechnoleg ar gyfer prosiectau y mae ganddyn nhw ddiddordeb ynddynt ac felly'n dysgu sgiliau TGC.

Mae yna wyth labordy digidol yn Sir Benfro, yn y llefydd canlynol:

- **The Hive, Hwlffordd**
- **Tanyard, Penfro**
- **Point, Abergwaun**
- **Hostel Ieuenctid Maenorb r**
- **Canolfan Ieuenctid Neyland**
- **Canolfan Gymunedol Hubberston a Hakin**
- **Canolfan Ieuenctid Dinbych-y-pysgod**
- **Canolfan Ieuenctid Doc Penfro**

Mae'r rhan fwyaf o'r canolfannau ieuenctid hyn yn chwilio am fwy o ddefnyddwyr i'r labordai digidol, er enghraifft grwpiau cymunedol eraill.

Cyswllt: Mick Conroy, Hwylusydd / Prif Reolwr Gweithrediadau CREDU, Canllaw Arlein, Swît 5, The Octagon Van Court, Parc Busnes Caerffili, Van Rd, Caerffili, CF83 3ED, ***mickconroy@canllaw-online.com***

Geirfa

TGC	Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu
CCAH	Consortiwm Cymunedol ar gyfer Addysg a Hyfforddiant
CLAIT	Computer Literacy and Information Technology
PAVS	Pembrokeshire Association of Voluntary Services

Astudiaeth achos

Cwrs Y Ddinas & Urddau 'Dysgu Byw'

Mae PAVS yn cefnogi'r cwrs "Dysgu Byw" ar-lein Y Ddinas a'r Urddau, sydd wedi ei anelu at ofalwyr di-dâl ac sy'n darparu pedwar modiwl yn ymwneud ag ystod o faterion iechyd a gofal cymdeithasol. Er bod y cwrs wedi ei lunio i'w gyflenwi'n gyfangwbl ar-lein, mae agwedd ddysgu "fysgol" wedi ei mabwysiadu i ddarparu cefnogaeth ddysgu ychwanegol. Mae Coleg Sir Benfro yn darparu tiwtor ar-lein ac yn hwyluso sesiynau astudio, ac yn darparu gwasanaethau asesu ac achredu pob dim yn ei rôl fel Canolfan Y Ddinas a'r Urddau cydnabyddedig. Mae'r tîm cyfathrebu 123 o fewn PAVS wedi gweithio gyda gofalwyr i ddatblygu Cymuned Ar-lein fel fforwm 24-7 i gefnogi myfyrwyr. Mae PAVS hefyd yn trefnu rhwydwaith o "fentoriaid dysgu" ar gyfer myfyrwyr y dyfodol. Derbyniodd y rhaglen beilot gydnabyddiaeth genedlaethol yn ddiweddar fel enillydd Gwobr Arbennig yn yr Acolâdau Gofal Cymdeithasol Cymru 2005.

Cyswllt: Sally Davies and Sue Leonard, Swyddog Datblygu TGC, PAVS, 36/38 Stryd Fawr, Hwlffordd, Sir Benfro, SA61 2DA, Tel 01437 769422, ***sally.davies@pavs.org.uk*** and ***sue.leonard@pavs.org.uk***



Gwefan 'Dysgu i Fyw' Y Ddinas & Urddau a'r gymuned ar-lein

Rhaglen Gyfathrebu 123 PAVS

Mae PAVS wedi bod yn cefnogi a hyrwyddo'r defnydd o TGC gan grwpiau gwirfoddol ers yn hwyr yn y 1990au a bydd yn cyflenwi rhaglen cyfathrebu 123 tan 2006. Mae'r rhaglen cyfathrebu 123 yn cynnig gwybodaeth a chefnogaeth ar lefelau gwahanol, wedi eu llunio'n bwrpasol ar gyfer anghenion a galluoedd mudiadau gwirfoddol a chymunedol gan eu galluogi i symud ymlaen yn ôl eu dymuniad. Dau o themâu allweddol cyfathrebu -123 yw 'rhoi ymdeimlad o bwrpas' ar gyfer defnyddio TGC a defnyddio cyfleusterau TGC cymunedol seiliedig sydd ar gael ar hyn o bryd. Cyflenwir yn bennaf trwy weithdai cefnogi anffurfiol lle mae grwpiau ac unigolion yn medru ymwneud â dysgu am y rhyngrwyd, cyfathrebu gwe seiliedig (e-bost a chymunedau ar-lein) a chreu gwefannau. Mae'r prosiect hefyd yn cynnal rhaglen barhaus o ymchwil sy'n paru technoleg newydd ag anghenion sectorau.

Cyswllt: Catherine Palmer, PAVS, Tel 01437 769422, ***catherine.palmer@pavs.org.uk***

is-grŵp TGC/e-ddysgu CCAH Sir Benfro

Mae is-grŵp e-ddysgu/TGC CCAH Sir Benfro wedi datblygu'r Strategaeth e-Ddysgu ar gyfer Sir Benfro. Mae hyn yn enghraifft o weithio mewn partneriaeth rhwng Coleg Sir Benfro a Chyngor Sir Penfro ym meysydd dysgu oedolion ac ysgolion, hyfforddi darparwyr o'r sector gwirfoddol megis Ymddiriedolaeth y Tywysog ac Age Concern, mudiadau ymbarél y sector gwirfoddol fel PAVS, yn ogystal â darparwyr hyfforddiant preifat. Bwriad y strategaeth yw creu rhwydwaith e-ddysgu Sir Benfro i wella a chydlynu'r ddarpariaeth e-ddysgu yn ogystal â chynnig cyngor a chyfarwyddyd o ansawdd uchel ar gyfer yr holl ddysgwyr. Amcanion pellach yw cefnogi ymarferwyr, rhannu arfer da a chodi ymwybyddiaeth gyhoeddus ynghylch e-ddysgu yn y sir.

Cyswllt: Catherine Palmer, Swyddog Datblygu TGC, PAVS, 36/38 Stryd Fawr, Hwlffordd, Sir Benfro, SA61 2DA, Tel 01437 769422,

Global Connections

Mae Global Connections wedi gosod swît TGC yn ystod haf 2005 ac fe'i hagorwyd ym mis Medi. Defnyddir y swît TGC i hyrwyddo a hwyluso cyflenwi gweithdai addysgiadol a hyfforddiant a ddarperir gan dîm Global Connections. Gellir dod â grwpiau bychan o ieuenctid i mewn i ddefnyddio'r Rhyngrwyd ar gyfer ymchwil unigol a chanfod gwybodaeth am faterion cyfoes neu ymgyrchoedd, sydd yn gyffredin rhyngddyn nhw â disgyblion mewn gwledydd eraill efallai. Mae'r swît TGC hefyd wedi ei chynllunio i'w defnyddio fel Cyfleuster Galw Heibio gan grwpiau cymunedol. Mae Global Connections hefyd yn defnyddio cymuned ar-lein 'Cymuned mewn Defnydd', sy'n hwyluso cyfathrebu rhwng pobl ieuanc sy'n gweithio ar brosiectau gwahanol mewn gwledydd amrywiol.

Cyswllt: Nicki Mallen, Global Connections, Eastgate Nicki Mallen, Global Connections, Eastgate Centre, East End Square, Penfro, Sir Benfro, SA71 4DG, Tel:01646 687800, ***nicola@globalconnections.org.uk***

Swît TGC Global Connections yn cael ei defnyddio gan gr p cymunedol

Astudiaeth achos

Neuadd Gymuned Sant Ioan

Mae Neuadd Gymuned Santt Ioan yn gyrchfan cymunedol bywiog iawn wedi ei lleoli yn un o'r ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf yn Sir Benfro. Mae gan y neuadd gyfleusterau helaeth a chynhelir amrywiaeth o gyfarfodydd rheolaidd, clybiau cinio, achlysuron cymdeithasol yn ogystal â chyrsiau. Mae gan y neuadd ei swît TGC ei hun sydd ar gael ar gyfer mynediad agored. Yn ychwanegol mae dysgu cymunedol Coleg Sir Benfro'n trefnu dosbarthiadau TGC yno sydd wedi profi'n boblogaidd iawn. Ar ôl dechrau gyda dosbarthiadau dechreuwyr roedd llawer o bobl am barhau i ddysgu a nawr trefnir cyfres o gyrsiau TGC uwch tebyg i CLAIT. Mae'r neuadd gymunedol yn barod i ymestyn y defnydd o'i swît TGC ei hun trwy gynnig cyrsiau; mae trafodaethau ar y gweill gyda Learndirect.

Cyswllt: Vicki Parsons, Neuadd Gymunedol Sant Ioan, Stryd yr Eglwys, Doc Penfro, Cymru, Teleffon: 01646 681962, ***stjohnscomhall@btconnect.com***

Swît TGC Global Connections yn cael ei defnyddio gan grŵp cymunedol

FRAME Sir Benfro

Mudiad ail-ddefnyddio cymunedol yw FRAME. Mae FRAME yn cynnig cyfleoedd i unigolion sy'n dioddef neu'n gwella o afiechyd meddyliol, ac sydd/neu ag anawsterau dysgu ac/neu'n dioddef o eithrio cymdeithasol, i brofi eu gallu i weithio, i ddatblygu sgiliau gwaith newydd, i ddatblygu sgiliau bywyd a thrwy ddarparu amgylchedd gwaith go iawn a moeseg gwaith da. Mae FRAME yn cynnig amrywiaeth o hyfforddiant TGC mewn partneriaeth â Choleg Sir Benfro. Gall gyflenwi'r hyfforddiant ar y safle, oherwydd byddai llawer o gleientiaid yn brin o hyder i fynychu'r coleg ar gyfer dosbarthiadau.

Cyswllt: Jenny Simms, Pembrokeshire Frame Ltd, Uned 18, Parc Busnes Brickhurst, Johnston, Hwlffordd, Sir Benfro SA62 3PA, Tel: 01437 891221, ***jasims@frameltd.co.uk***

Gwefan Frame, a gefnogir gan brosiect cyfathrebu 123 PAVS

Age Concern Sir Benfro – Adnodd Oed Desgiau T.G.

Mae prosiect Adnodd Oed Desgiau T.G. wedi ei anelu i gynorthwyo pobl sydd dros 50 i ddechrau defnyddio cyfrifiaduron neu i ehangu eu sgiliau presennol. Cynnwys 10 sesiwn awr o hyd un wrth un yn cael eu cyflwyno gan tua 25-30 o wirfoddolwyr dros ddeg wythnos. Mae'r sesiynau wedi eu llunio'n bwrpasol i fodloni anghenion yr unigolyn a'u hanelu at gyflenwi sgiliau cyfrifiadurol sylfaenol. Mae'r prosiect yn defnyddio cyfrifiaduron mewn pum llyfrgell o amgylch y sir sydd ar gael i'w defnyddio am ddim. Mae'r gwirfoddolwyr yn derbyn cefnogaeth cydlynydd y Ddesg Adnoddau sy'n cynnwys pynciau'n ymwneud â deunyddiau hyfforddi a chyrsiau i'w cymeradwyo ar gyfer astudio pellach.

Cyswllt: Karen Butler, Cydlynydd Desg Adnoddau Oed, Age Concern Sir Benfro, 2a Holloway, Hwlffordd SA61 2JL, Tel 01437 769972 ***karen.butler@age-concern-pembrokeshire.co.uk***

Adnoddau

Mae **Learndirect** yn cynnig ystod o gyrsiau TG a busnes sy'n cynnwys cefnogaeth tiwtor. Medrwch ddewis dilyn y cyrsiau mewn canolfannau Learndirect. Neu ar ôl cofrestru medrwch gwblhau'r cwrs artref neu o'ch gweithle.

www.learndirect.co.uk

PAVS nawr yn Ganolfan Cyswllt LearnDirect ac yn cynnig cyngor, cofrestru a chymorth ar gyfer cyrsiau LearnDirect sydd o ddiddordeb i'r sector gwirfoddol, rhai ohonyn nhw am ddim.

www.pavs.org.uk

Mae gwefan Dysgu'r **BBC** yn cynnig llawer o adnoddau a chyrsiau am ddim yn ogystal â chanfyddwr cyrsiau

www.bbc.co.uk/learning

Coleg Digidol Cymru
Amrediad o gyrsiau am ddim y gellir eu hastudio naill ai'n Gymraeg neu'n Saesneg. Cyrsiau iaith, cyrsiau cyfrifiadurol a mwy

www.learn.cd

Mae **e-goleg Cymru** yn cynnig amrediad o gyrsiau busnes am ddim i drigolion ardaloedd cyllid Amcan Un. Mae ganddyn nhw gyflwyniad rhyngweithiol i e-ddysgu ar eu gwefan, felly galwch heibio i weld.

www.e-collegewales.co.uk

Mae cyrsiau ar-lein **Prifysgol y Drydedd Oes** yn ymwneud â phynciau fel ysgrifennu, hanes celf, ffotograffiaeth ddigidol neu fotaneg

www.u3a.org.uk

Gwybodaeth e-ddysgu ar wefan **PAVS**

www.pavs.org.uk/E-learning.htm